# Monitro a rheoli cynnydd cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gofalu fod pawb yn ymwybodol o'u disgwyliadau a chân nhw eu hysbysu am unrhyw newidiadau i amserlenni.

Mae'n ymwneud â monitro cynnydd amserlenni a chyfathrebu gyda'r rheiny sydd ynghlwm â'r cynhyrchiad.

Mae'n ymwneud ag adnabod unrhyw anghysonderau rhwng union gynnydd a chynnydd rydych chi wedi'i gynllunio ynghyd ag awgrymu datrysiadau realistig i broblemau.

Mae'n ymwneud â chyfiawnhau unrhyw newidiadau i amserlenni o ran costau a logisteg a gofalu eich bod yn cydymffurfio gyda'r holl gytundebau cyflogaeth, cyfreithiol a chytundebol.

Mae'n ymwneud â deall a rheoli ystod o ddogfennau fel adroddiadau diwedd diwrnodau ffilmio, adroddiadau dilyniant, datganiadau cost ac adroddiadau cost. Fe all hefyd ymwneud â datrys unrhyw ddadleuon yn effeithiol neu drîn trafferthion cyfathrebu rhwng aelodau'r cast a chriw mewn ffordd amserol a sensitif.

Mae'r Safon hon ar gyfer Rheolwyr Cynhyrchu a Chydlynwyr Cynhyrchu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gofalu fod pawb yn ymwybodol o'u disgwyliadau yn ystod holl gamau'r cynyrchiadau gan gynnal cyfarfodydd rheolaidd ynghylch y cynhyrchiad
2. sefydlu systemau cyfathrebu sy'n gofalu bod yr wybodaeth yn llifo'n effeithlon
3. cytuno gyda phobl berthnasol bod yr amserlenni'n realistig ac yn gyraeddadwy yn defnyddio gwybodaeth o ragchwiliadau technegol
4. adnabod problemau dichonol a chynllunio tuag at argyfyngau adnabyddadwy
5. gofalu fod pawb yn deall ac yn cydymffurfio gyda'r holl gytundebau cyflogaeth, cyfreithiol, iechyd a diogelwch, yswiriant a chytundebol ac yn eu dwyn i ystyriaeth yn yr amserlenni sydd wedi'u cynllunio
6. cynnal asesiadau risg parhaus yn ystod cynyrchiadau er mwyn bodloni gofynion y cynhyrchiad
7. casglu gwybodaeth ddigonol er mwyn paratoi adroddiadau cynnydd rheolaidd a chynnal gwiriadau manwl gywir o gynnydd i gymharu â'r taflenni galwadau
8. adnabod y rhesymau dros, ac awgrymu datrysiadau realistig i unrhyw anghysonderau rhwng union gynnydd a chynnydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw
9. cyfiawnhau unrhyw newidiadau i amserlenni o ran cost a logisteg i awdurdodau priodol
10. rhoi gwybod i gydweithwyr priodol ynghylch newidiadau i'r amserlenni'r cynhyrchiad heb oedi
11. datrys dadleuon neu drafferthion cyfathrebu rhwng aelodau'r cast neu griw

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i reoli cyfarfodydd rheolaidd ynghylch y cynhyrchiad er mwyn gofalu bod cyfathrebu effeithiol rhwng pawb sydd ynghlwm
2. unrhyw anghysonderau rhwng yr union gynnydd a'r cynnydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw
3. gwahanol fathau o systemau cyfathrebu a sut a phryd ydy'r adeg gorau i'w rhoi ar waith
4. pryd mae'n angenrheidiol gwneud newidiadau i'r amserlen neu'r cynnwys a sut i gyfiawnhau'r newidiadau o ran cost, logisteg ac iechyd a diogelwch
5. pwy sydd angen eu hysbysu am newidiadau i amserlenni?
6. sut i reoli dogfennau'r cynhyrchiad gan gynnwys adroddiadau diwedd diwrnodau ffilmio, adroddiadau dilyniant, datganiadau cost ac adroddiadau cost
7. rheoliadau cyflogaeth, cyfreithiol, yswiriant, cytundebol ac iechyd a diogelwch a sut allan nhw effeithio ar yr amserlen
8. pa ffactorau all achosi oedi i gynyrchiadau a'r angen am gynllunio ar gyfer argyfyngau
9. ffyrdd effeithiol o ddatrys dadleuon rhwng aelodau'r cast a chriw
10. sut i gasglu gwybodaeth angenrheidiol er mwyn paratoi adroddiadau cynnydd a chyfeirnodi'r rhain yn erbyn y daflen alwad
11. sut i gyflwyno rhesymau a chyfiawnhau newidiadau i'r amserlen

Monitro a rheoli cynnydd cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Cynhyrchiad, Amserlen |